

Cofnodion cyfarfod rhithwir misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Medi 15fed 2021 am 7.30 o'r gloch.

Minutes of Llanddona Community Council virtual monthly meeting held on 15th September 2021 7.30pm

Presennol/Present – Cadeirydd/Chairperson Myrddin Roberts, Is-Cadeirydd / Deputy Chairperson Martin Hennessey, Mark Griffiths, Barbara Williams, Harri Owen, Gwennan Hughes, Anthony Jones, Maldwyn Williams a Geraint Parry (Clerc/Clerk)
Cynghorwyr Sir/County Councillors – Carwyn Jones

1. **Ymddiheuriadau/Apologies** - Rhian Hughes, Alun Roberts a Gary Pritchard
2. **Cofnodion/Minutes** - Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18 Awst fel rhai cywir gan Martin Hennessey, eiliwyd gan Antony Jones / *Minutes of the previous meeting held on 18th August were accepted as accurate by Martin Hennessey, seconded by Anthony Jones.*
3. **Datgan diddordeb rhagfarnol / Declaration of prejudicial interest**
 - 3.1 Ni ddatganwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant / *No declaration of interest declared*
4. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 4.1 Maes Chwarae Plant - Derbyniwyd cadarnhad o'n cais am grant / *Children's Play Area - Confirmation of our grant application has been received.*
 - 4.2 Arwydd Eglwys Llanfihangel - aros am wybodaeth bellach gan y Cyngor Sir. Nodwyd hefyd bod yr arwydd ar gyfer Llanddona bellach wedi mynd ar goll / *Llanfihangel Church sign - awaiting further information from the County Council. It was also noted that the sign for Llanddona has now gone missing.*
 - 4.3 Gordyfiant ar ochrau'r lonydd cul - o ran y toriadau cadwraeth, mae Cyng. G Hughes wedi anfon lleoliad y trionglau gwyn at Cyng. G Pritchard sydd yn ei dro wedi gofyn i'r Cyngor Sir. Dim rhagor o fanylion hyd yma. / *Overgrowth on the sides of the narrow lanes - with regards to the conservation cuts, Clr G Hughes has forwarded the location of the white triangles to Clr. G Pritchard who in turn has asked the County Council. No further details as yet.*
 - 4.4 Mainc ar gyfer y Fynwent Gymunedol - cytunwyd i'r Clerc drafod y cynnig blaenorol a wnaed tuag at fainc / *Bench for the Community Cemetery - it was agreed for the Clerk to discuss the previous offer made towards a bench.*
 - 4.5 Mae'r Cae Chwarae Plant wedi'i dorri / *The Children Playing Field has been cut.*
5. **Adrodd gan y Cynghorwyr Sir / Report by County Councillors**
 - 5.1 Clwb Ffermwyr Ifanc Llangoed - wedi dechrau yn ôl ac yn chwilio am wirfoddolwyr / *Young Farmers Club Llangoed - have started back and looking for volunteers.*
 - 5.2 Cartrefi Gwyliau - wedi holi'r Adran Gynllunio ynglŷn â'r canllawiau diweddaraf ar ddarparu ail gartrefi, sef 15%. Yn ardal Llanddona mae'r ffigur hwn yn 16.62%, felly'n uwch na'r trothwy. Mae'r ffigur i Fiwmares yn 18.13% a Llangoed 13.51%. Dywedir bod llawer o fylchau i osgoi'r trefniant hwn. / *Holiday Homes - have enquired with the Planning Department regarding the latest guidelines on the provision of second homes set at 15%. In the Llanddona area this figure is 16.62%, therefore above the threshold. In Beaumaris the figure is 18.13% and Llangoed 13.51%. It was stated that there are many loopholes to bypass this arrangement.*
6. **Traeth / Beach**
 - 6.1 Gwrych Tail - trafodwyd y sefyllfa bresennol a'r diffyg cyfathrebu gan CNC. Cyng. G Hughes i wirio y cyfathrebiad cyn mynd ymlaen i'r cam nesaf. *Manure Hedge - discussed the current situation and the lack of communication by NRW. Clr. G Hughes to check communication before proceeding to the next stage.*

- 6.2 Cyngor Cyfreithiol - esboniodd y Clerc y pwyntiau a godwyd yn ystod y trafodaethau cyfreithiol. Clerc i weithredu'r pwyntiau a godwyd / *Legal Advice - Clerk explained the points raised during the legal discussions. Clerk to action the points raised.*
- 6.3 Cyfathrebiad gan y Swyddog Cynllunio Gwastraff ynglŷn â'r difrod i'r tir gyferbyn â Phen Trans a'r deunydd gwastraff. Trafodwyd yr ateb gan y Cyngor Sir i'r mater hwn a'r sefyllfa bresennol. / *Communication from the Waste Planning Officer regarding the damage to the land opposite Pen Trans and the waste material. Discussed the reply from the County Council to this matter and the current situation.*
- 6.4 Esboniodd y Clerc yr awgrym a gyflwynwyd gan y Cyngor Sir i gyfarfod rownd bwrdd gyda thirfeddianwyr lleol. Nawr bod y tymor yn dod i ben, mae'n bosibl ei fod yn amser da i drafod materion sy'n barod i'r flwyddyn nesaf. Clerc i ofyn am agenda / *Clerk explained the suggestion put forward by the County Council to a round table meeting with local landowners. Now that the season is coming to an end, it's possibly a good time to discuss matters in preparation to next year. Clerk to request an agenda.*
- 6.5 Atgyweirio'r ffyrdd i lawr i'r traeth - bydd y gwaith yn dechrau ar 20 Medi am gyfnod o tua 3 wythnos. Bydd y gwaith yn cynnwys sefydlogi'r tir, trwsio a gwella'r systemau draenio, a hefyd ail-wynebu'r ffordd. / *Repair to the roads down to the beach. Work is to begin 20th September for a period of about 3 weeks. The work will include stabilising the land, repairing and improving the drainage systems, and also re-surfacing the road.*

7. Cofeb / Memorial – Capel Peniel

- 7.1 Mr Ellis Wyn Roberts - Henaduriaeth Môn - yn bresennol lle esboniodd y sefyllfa anodd gyda Chapeli'n cau. Esboniodd ymhellach, yn 1903, y derbyniwyd cadarnhad bod y tir lle safai'r Capel bellach yn rhydd-ddaliad ac nad oedd rhent pellach i'w gasglu a bod yr eiddo yn eiddo i'r Henaduriaeth. Nid oes unrhyw syniad ar hyn o bryd pryd y bydd y Capel yn cael ei werthu a beth fydd yn digwydd. Gallai ddod yn un, dau neu dri eiddo, ond pwysleisiodd yr angen i ddiogelu'r gofeb bwysig.
- Dywedodd Cyng. C Jones fod y gofeb mor bwysig i'r Pentref a bod yn rhaid cadw a diogelu'r gofeb. Gofynnodd beth yw'r llinell amser sydd gennym, a fyddai'r corff yn cynnig darn o dir i leoli'r gofeb ac os felly a fyddai unrhyw arian ar gael i dalu am y gost pe bai'n rhaid ei symud?
- Mewn ymateb, dywedodd Mr Roberts y byddai'n anodd pe bai mwy nag un prynwr yn dod ymlaen, ond byddai'r Henaduriaeth yn edrych yn ffafriol ar gyfraniad i symud y gofeb. Fodd bynnag, bydd rhaid rhoi sylw i drigolion presennol Tŷ'r Capel ond ni fyddai unrhyw gynnydd tan y Flwyddyn Newydd.
- Pan ofynnwyd ymhellach pam yr oedd angen symud y gofeb, y pwyslais yw diogelu'r gofeb gan nad oes sicrwydd beth sydd gan y dyfodol gydag unrhyw ddatblygiad.
- Dywedodd Cyng. M Williams fod plac y tu mewn i'r Capel yn cynnwys yr enwau sydd ar y gofeb. Yn dilyn trafodaeth bellach, nodwyd bod y Capel wedi'i gofrestru gyda CADW am fod ganddo drawstiau tô unigryw. Nid yw'n glir pa radd y mae wedi'i rhestru gyda CADW. Er mwyn ystyried cyfraniad, bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned geisio cael cost ar gyfer symud y gofeb. Nodwyd hefyd na fydd unrhyw gyfraniad i gynnal a chadw'r gofeb gan yr Henaduriaeth.
- Yn dilyn trafodaeth, mae teimlad cryf i adael y gofeb yn ei lle. Hefyd ein bod yn sicrhau bod y llwybr i'r gofeb yn llwybr cyhoeddus cofrestredig. Cytunwyd yn unfrydol i drefnu cyfarfod safle ar 17/09/21 am 6:15yh i drafod y mater ymhellach.
- Mr. Ellis Wyn Roberts – Anglesey Presbytery - was in attendance and explained the current situation difficult this period with the Chapel closing. He further explained that in 1903, confirmation was received that the land in which the Chapel stood was now freehold and that no further rent was to be collected and that the property is owned by the Presbytery. There is no idea at present when the Chapel will be sold and what will happen. It could become one, two or three properties, but emphasised the need to protect the important memorial.*

Clr. C Jones stated that the memorial is so important to the Village and agreed in must be preserved and protected. He asked what is the timeline we have, would the body offer a piece of land to site the memorial and if so would there be any funding available to cover the cost if it had to be moved?

In reply, Mr Roberts said that it would be difficult if more than one buyer was to come forward, but the Presbytery would look favourably at a contribution to move the memorial. However regard must be given to the present residents of the Chapel House but there would be no progress until the New Year.

When asked further why was there a need to move the memorial, the emphasise is to protect the memorial because there is no guarantee what the future holds with any development.

Clr. M Williams said there is a plaque inside the Chapel containing the names that are on the memorial. Following further discussion, it was noted that the Chapel is registered with CADW because it has unique roof trusses. It is unclear which grade it is listed with CADW. In order to consider the contribution, a cost for moving the memorial must be sought by the Community Council. It was also noted there will not be any contribution for maintenance of the memorial from the Presbytery.

Following discussion, there is strong feeling to leave the memorial in situ and also that we must ensure that the path to the monument is a registered public footpath. It was unanimously agreed to arrange a site meeting on 17/09/21 for 6:15pm to discuss the matter further.

8. Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths

8.1 Clerc i drafod torri llwybr troed Arfordir gyda'r Cyngor Sir / *Clerk to discuss the cutting of the Coastal footpath with the County Council.*

8.2 Esboniodd y Cadeirydd fod y gwaith ar y gweill i gynnal a chadw'r llwybrau troed - 22/052/01 o Eglwys Llaniestyn tuag at Tan Fynwent a'r 22/028/1 o Fferm y Wern / *The Chairperson explained that the work is in hand to maintain the footpaths - 22/052/01 from Llaniestyn Church towards Tan Fynwent and the 22/028/1 from Wern Farm.*

8.3 Disodlwyd y giât bren doredig ar y llwybr troed ger Tyddyn Bach / *The broken wooden gate has been replaced on the footpath by Tyddyn Bach*

9. Gwaith / Work SP Energy

9.1 Tyn Llain – esboniodd y Clerc fod cyfarfod safle wedi'i drefnu ar 16/09 @ 8:00am gyda SPEN i ddeall goblygiadau ac effeithiau'r gwaith cloddio ar y safle hwn. Y cynllun gwreiddiol oedd darparu pŵer uwchben dros y safle i'r polyn H ar y tir comin y tu ôl i'r safle. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys darparu pŵer tanddaearol i'r polyn H ar hyd y llwybr troed cyhoeddus gerllaw. / *The Clerk explained that a site meeting has been arranged on 16/09 @ 8:00am with SPEN to understand the implications and effects of the over excavation on this site. The original plan was to provide overhead power over the site to the H pole on the common land behind the site. The revised plan involves provide underground power to the H pole along the public footpath nearby.*

9.2 Troed y Rhiw - esboniodd Cyng. C Jones fod cwyn wedi dod i law gan breswlydd lleol ynglŷn â'r gwaith ar y llwybr troed cyhoeddus gan SPEN drwy godi postyn i gyflenwi'r eiddo / *Clr C Jones explained that a complaint was received from a local resident regarding the work on the public footpath by SPEN by erecting a post to supply the property.*

10 Cynghrair Seiriol / Seiriol Alliance

10.1 Mae'r Clerc wedi dosbarthu'r wybodaeth am y llwybr troed hanesyddol arfaethedig gan Delyth Phillips / *The Clerk has circulated the information regarding the proposed historical footpath from Delyth Phillips*

11 Cwynion / Complaints

11.1 Gordyfiant - esboniodd y Clerc fod dau cwyn wedi dod i law:-

- 1) Cyngor Sir - gordyfiant o dir comin ar y ffordd tuag at mast yr Heddlu
 - 2) Perchnogion Erw Gain - gordyfiant o'r tir comin ger yr eiddo sy'n ymyrryd â'r gwasanaeth casglu sbwriel
- Rhodddwyd sylw i'r ddwy cŵyn.

Overgrowth - the Clerk explained that two complaints have been received:-

1) County Council - overgrowth from common land on the road towards the Police Mast.

2) Owners of Erw Gain - overgrowth from the common land near the property which is interfering with the refuse collection service

Both complaints have been addressed.

11.2 Sylwyd ar cŵyn ar y cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â chyflwr y cerrig beddau yn dilyn torri'r fynwent. Gan na chafodd y cŵyn yma ei chyfeirio at y Cyngor Cymuned - ni chymerir unrhyw gamau ar hyn o bryd. / *A complaint was noticed on social media regarding the condition of the headstones following the cutting of the cemetery. As this complaint was not directed to the Community Council - no action is taken at this stage.*

11.3 Adroddir am dipio anghyfreithlon ar y tir comin tuag at fast yr heddlu / *Fly tipping is reported on the common land towards the police mast*

12 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

Dywedodd Cynghorydd os yw'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu cais cynllunio a bod yr Adran Gynllunio yn cymeradwyo'r cais, yna dylai'r Swyddog roi cyfle i'r Cyngor Cymuned drafod y mater. Esboniodd Cyng. C Jones y rheol statudol 21 diwrnod ar gyfer arsylwi ac awgrymodd sut yr ydym yn delio â cheisiadau yn y dyfodol. / *A Councillor suggested that if the Community Council object a planning application and the Planning Department approve the application, then the Officer should provide the Community Council the opportunity to discuss the matter. Clr. C Jones explained the statutory 21 day rule for observation and suggested how we deal with future applications.*

12.1 HHP/2021/252 - Bwthyn y Môr, Llanddona - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy newydd - dim gwrthwynebiad / *Full application for alterations and extensions together with a replacement garage - no objection*

12.2 HHP/2021/283 Tre Wen, Llanddona - Cais llawn ar gyfer amnewid y garafan sefydlog bresennol am gaban newydd ar gyfer defnydd ategol o'r annedd - dim gwrthwynebiad / *Full application for the replacement of existing static caravan with new cabin, for ancillary use of the dwelling - no objection.*

12.3 ELE/2021/1 - Cais llawn o dan Adran 37 deddf trydan i ail adeiladu llinell uwchben 11KV bresennol, wedi'i chefnogi gan bolion pren, o Is-orsaf bresennol ynghyd ag adfer tua 2.2 cilomedr o Linell Uwchben 11kV rhwng Biwmares a Pentraeth - dim gwrthwynebiad / *Full application under Section 37 of the Electricity Act 1989 for the rebuilding of an existing 11kV Overhead Line, supported by wood poles, from an existing Substation together with recovering approx. 2.2km of 11kV Overhead Line between Biwmares a Pentraeth / Beaumaris and Pentraeth - no objection.*

12.4 HHP/2021/303 - Pant y Bwlch, Llanddona - cais llawn i ddymchwel ystafell ardd bresennol ynghyd a chodi swyddfa/campfa yn ei le - gwrthwynebu'r cais oherwydd bod gan yr adeilad newydd arfaethedig ôl troed llawer mwy na'r adeilad gwreiddiol ac mewn ardal o AHNE a byddai'n difetha'r amgylch naturiol / *Full application for the demolition of existing garden room together with the erection of a home office/gym in place - objected to the application because the proposed replacement building has a much larger footprint than the original building, is in an area of AONB and would spoil the natural surrounding.*

Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decisions

- 12.5 FPL/2021/143 - Tylluan Wen, Llanddona - cais llawn ar gyfer newid defnydd adeilad allanol i ddau lety gwyliau - wedi ei wrthod / *Full application for the conversion of an outbuilding into two holiday units - has been refused.*

13 Cyfrifon / Accounts

Anfonebau i'w talu / *Invoices for payment:-*

- 13.1 Cyflog y Clerc / *Clerk Salary - £562.68*
13.2 HMRC - £122.20
13.3 Cynnal a Chadw mynwentydd a llwybrau cyhoeddus / *Cemeteries and public footpaths maintenance - £1,600*
Incwm / Income
13.4 Precept - £2,308.33
13.5 Wayleave - £63.95

14 Gohebiaeth / Correspondence

- 14.1 IRPW – datganiad blynyddol 2020-21 / *Annual return 2020-21*
14.2 Awdit Cymru – ymholiad 2020-21 / *Audit Wales – questions 2020-21*
14.3 Canllawiau coronofeirws meysydd chwarae / *Coronavirus guidance playgrounds*
14.4 Prosiect Môn a Menai / *Môn a Menai Prosect – Menter Môn*
14.5 Fforwm Cyswllt Cynghorau Dref a Chymuned / *Liason Forum – Town & Community Councils - 29/09/21 @ 6:30pm*
14.6 Awel y Môr ymgynghoriad cyhoeddus / *Public Consultation - 31/08/21 - 11/10/21*
14.7 Un Llais Cymru – gweminar – Cadw Cymru Daclus / *One Voice Wales – webinar – Keep Wales Tidy – 15/09/21*
14.8 Troed y Rhiw – Gwaith / *Work by SP Energy*
14.9 Cyngor Sir – Traeth Llanddona / *IOACC – Llanddona Beach*

15. UFA / AOB

- 15.1 Esboniodd y Clerc fod sylw wedi dod i law gan breswlydd lleol o ran maint a graddau'r datblygiadau diweddar yn y Pentref ac yn enwedig faint o chwarela ar safle Tyn Llain a'i effaith ar y warchodfa natur leol. Mae'r achwynydd wedi codi'r mater hwn gyda'r Adran Gynllunio. Deellir na chyflwynwyd unrhyw gynllun Bioamrywiaeth gyda chais cynllunio gwreiddiol / *The Clerk explained that an observation has been received from a local resident regards the scale and extent of recent developments in the Village and especially the amount of quarrying on the Tyn Llain site and its affect on the local nature reserve. The complainant has raised this issue with the Planning Department. It is understood that no Biodiversity plan was submitted with original planning application.*
- 15.2 Mae'r Clerc wedi ymateb i gwestiynau pellach gan Archwilio Cymru ynghylch Ffurflen Flynyddol 2020/21. Dim rhagor o wybodaeth hyd yma / *The Clerk has responded to further questions were received from Audit Wales regarding the Annual Return 2020/21. No further information to date.*
- 15.3 Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gwaith Cwlwm Seiriol. Clerc i ddosbarthu cynllun y prosiect. Nodwyd bod gwartheg bellach yn pori comin Rhos ac nad yw'r arwyddion rhybudd wedi'u codi / *Discussion took place regarding the work of Cwlwm Seiriol. Clerk to circulate the project plan. It was noted that cattle are now grazing the Rhos common and that the warning signs have not been erected.*

16. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 22:00. Cyfarfod nesaf ar 20/10/21 am 19:30 / *There was no further business to discuss. Meeting ended 22:00pm. Next meeting to be held on 20/10/21 at 19:30pm.*